

SL(6)028 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2021

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol¹ yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru o wledydd neu diriogaethau nad ydynt yn esempt ynysu am gyfnod penodol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol drwy wneud y newidiadau canlynol:

- Gwneud y newidiadau canlynol i'r rhestrau Coch, Oren a Gwyrdd:
 - ychwanegu Cuba, Indonesia, Myanmar a Sierra Leone at y rhestr Goch;
 - dileu Ynysoedd Baleares ac Ynysoedd Prydeinig y Wryf oddi ar y rhestr Werdd (a'u hychwanegu at y rhestr Oren);
 - ychwanegu Bwlgaria, Croatia, Hong Kong a Taiwan at y rhestr Werdd.
- Cynnwys darpariaeth i ddigwyddiadau penodol ddefnyddio darparwyr profion preifat ar gyfer profion gorfodol.
- Dileu'r gofyniad i gael prawf ar ddiwrnod 8 a'r gofyniad i hunanynysu ar gyfer y teithwyr canlynol o wledydd sydd ar y rhestr Oren:
 - preswylwyr o'r DU sydd wedi'u brechu yn llawn;
 - plant o dan 18 oed;
 - pobl sydd wedi cymryd rhan mewn treialon brechlyn.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

¹ Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574)



Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn [llythyr at y Llywydd, dyddiedig 16 Gorffennaf 2021](#). Yn benodol, nodwn fod y llythyr yn dweud y canlynol:

"Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol. O ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."

Mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. I'r graddau y gallant o bosibl gyffwrdd ag unrhyw hawliau o'r fath, mae'r Llywodraeth o'r farn bod yr ymyrraeth yn fach iawn ac y gellir ei chyfiawnhau fel ymyrraeth angenrheidiol a chymesur i gyflawni nod dilys. Nid yw'r diwygiadau i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd a wneir gan y Rheoliadau hyn yn newid y ffordd y maent yn cyffwrdd â hawliau unigol."



3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

“Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.”

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

